



Pecyn addysg

Arabeg a Diwylliant Arabaid

Arabeg a Diwylliant Arabaid

<https://www.britishcouncil.org/school-resources/languages/arabic-language-culture-programme>

Cynnwys

Cyflwyniad

Tud 3

Cynllun gwasanaeth:

Cyflwyniad i ddiwylliant Arabaidd

Tud 5

Cynllun gwers 1

Cyflwyniad i Arabeg a chelf caligraffeg

Tud 13

Cynllun gwers 2

Mathemateg, patrymau a'r byd Arabaidd

Tud 22

Cynllun gwers 3

Adrodd Straeon yn y byd Arabaidd

Tud 27

Cynllun gwers 4

Dathliadau, gwyliau a bywyd bob dydd
pobl ifanc ledled y byd Arabaidd

Tud 37

Cynllun gwers 5

Cerddoriaeth

Tud 39

Taflenni gwybodaeth a gweithgareddau

Tud 41

Rhagor o wybodaeth

Tud 68

Cyflwyniad

Mae'r byd Arabaidd yn rhanbarth daearyddol amrywiol, hynod ddiddorol sy'n ymestyn o dde-orllewin Asia i ogledd-orllewin Affrica. Mae ganddo ddiwylliant a hanes cyfoethog dros ben, ynghyd ag un o ieithoedd mwyaf y byd a siaredir gan fwy na 300 miliwn o bobl. Mae Arabeg hefyd yn un o ieithoedd swyddogol y Cenhedloedd Unedig ac mae wedi'i nodi fel un o'r deg iaith bwysicaf i ddyfodol y DU.*

*Mae adroddiad y British Council, 'Ieithoedd y Dyfodol' (Languages of the Future), yn nodi pa ieithoedd a fydd yn fwyaf allweddol i'r D.U. yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma: " <https://www.britishcouncil.org/research-policy-insight/policy-reports/languages-future-2017> Adroddiad 'Ieithoedd y Dyfodol'

Mae'r pecyn addysg hwn wedi'i ddylunio i helpu athrawon cynradd prif ffrwd i gyflwyno agweddau ar Arabeg a'r diwylliant Arabaidd i'w disgyblion. Mae'n cynnwys cynlluniau gwers a gwasanaeth, ffeithiau ac adnoddau er mwyn helpu disgyblion i feithrin gwell wybodaeth a dealltwriaeth o'r iaith, hanes a diwylliant. Bwriedir i'r deunyddiau fod yn hyblyg ac addasadwy i'w defnyddio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gellir eu defnyddio fel mannau cychwyn mewn gwersi unigol a gwasanaethau neu fel rhan o brosiectau trawsgwricwlaidd mwy o faint ar y cyd sy'n cynnwys cydweithio dros nifer o bynciau.

Gall eich disgyblion ddysgu sut i gyfarch ffrind a chyfrif yn Arabeg, bod yn greadigol wrth greu patrymau geometrig a ryseitiau, a dysgu am ddiwylliant Arabaidd drwy ddefnyddio ein hystod eang o adnoddau a gweithgareddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth.

“

Mae ieithoedd yn sylfaen i dreftadaeth ddiwylliannol y byd. Mae pob iaith yn cynnig mewnwelediad cyfoethog ac unigryw i ffyrdd gwahanol o feddwl a byw, ac hefyd i hanes y myrdd o ddiwylliannau a phobloedd ledled y byd.

”

British Council:
Ieithoedd y Dyfodol.

Cynllun gwasanaeth:

Cyflwyniad i ddiwylliant Arabaid

Awgrymiadau ar gyfer sgript gwasanaeth

Mae'r nodiadau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gefndir a sgript i chi ei defnyddio neu ei haddasu ar gyfer eich gwasanaeth. Gellir hefyd lawrlwytho sleidiau o: <https://www.britishcouncil.org/arabic-language-and-culture-education-pack>

Chwaraewch gerddoriaeth Arabaidd wrth i'ch disgyblion gyrraedd a gadael y gwasanaeth. Ceir enghraifft yma: <https://www.youtube.com/watch?v=V1tKjkuJRWk>

Dywedwch wrth y disgyblion eich bod am ddysgu am y byd Arabaidd lle Arabeg yw'r brif iaith a gaiff ei siarad. Rhowch y cyfarchiad traddodiadol: as-salaamu 'alaykum (ﷲ). Eglurwch mai cyfarchiad Arabeg traddodiadol yw hwn a glywir yn y gân a chwaraewyd ar y ffordd i mewn i'r gwasanaeth. Os oes unrhyw un yn siarad Arabeg yn yr ysgol, gofynnwch iddynt eich helpu i gynnal y gwasanaeth ac efallai baratoi rhai ymadroddion byr mewn Arabeg i'w dangos a'u cyfieithu.

Sleidiau 1 a 2: Map


Mae mwy na 300 miliwn o bobl ar draws y byd yn siarad Arabeg heddiw fel iaith gyntaf a heddiw rydym yn mynd i ddysgu ychydig yn fwy am y diwylliant a'r hanes sy'n uno'r holl bobl yma. Yn ôl UNESCO, mae Arabeg yn iaith swyddogol mewn 22 o wledydd yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica ar hyn o bryd, a'r gwledydd yma sy'n cael eu hystyried yn rhan o'r byd Arabaidd. Mae llawer o wledydd eraill hefyd yn defnyddio cyfarchion a dywediadau Arabeg, oherwydd Arabeg yw iaith Islam ac mae Islam yn gyffredin iawn mewn gwledydd y tu allan i'r byd Arabaidd. Yn wir, nid yn y byd Arabaidd y mae'r rhan fwyaf o Fwslemiaid yn byw, ond yn Ne a De-ddwyrain Asia. Er bod llawer o bethau yn gyffredin yn y byd Arabaidd, mae'n wahanol iawn o ran diwylliant, crefydd, ac hyd yn oed iaith. Er mai Arabeg yw iaith swyddogol pob gwlad yn y byd Arabaidd, caiff ieithoedd eraill eu siarad hefyd a gall yr iaith Arabeg ei hun swnio'n wahanol iawn yn dibynnu ar ble rydych chi. A allwch chi adnabod unrhyw rai o'r gwledydd Arabaidd sydd ar y map? Efallai fod rhai ohonoch chi wedi bod i'r gwledydd yma neu fod gennych chi deulu a ffrindiau sy'n byw yno. Mae sawl tirnod enwog mewn gwledydd Arabaidd. Ydych chi'n adnabod unrhyw un?

Sleid 3:

Y Pyramidiau a'r Sffincs Mawr yn Giza yn yr Aifft

Cafodd y pyramidiau eu hadeiladu dros 4,000 o flynyddoedd yn ôl i gadw gweddillion y Ffaroaid a oedd yn teyrnasu dros yr Hen Aifft ac maent yn cael eu gwarchod gan y Sffincs Mawr – creadur chwedlonol â chorff llew a phen person, Ffaro Khufu efallai.

Mae archeolegwyr yn credu mai'r Sffincs Mawr yw un o'r cerfluniau mwyaf a hynaf yn y byd – mae'n 73 metr o hyd ac 20 metr o uchder. Mae ei glustiau ymhell dros un metr o uchder.



Sleid 4:

Mae Mosg Al Haram neu'r Mosg Mawr yn ninas Mecca, Saudi Arabia

Dyma fosc mwyaf y byd ac mae'n amgylchynu un o lefydd mwyaf sanctaidd Islam, y Kaaba. Mae'r Kaaba yn adeilad siâp ciwb, sydd â gorchudd sidan a chotwm drosto.

Bob blwyddyn mae miliynau o Foslemiaid yn teithio i Mecca i gwblhau'r Hajj neu'r bererindod. Mae'r daith yn cael ei gweld fel un o bum colofn Islam, sy'n ganolog i'r ffydd. Mae'n bererindod ysbrydol y mae'n rhaid i bob Moslem sy'n oedolyn ei gyflawni o leiaf unwaith yn ei fywyd os gall fforddio gwneud hynny a'i fod yn ddigon iach i wneud y daith.



Sleid 5:

Petra yng Ngwlad yr Iorddonen

Mae Petra yng Ngwlad yr Iorddonen yn ddinas hynafol sydd wedi'i lleoli rhwng y Môr Marw a'r Môr Coch. Mae hanner y ddinas wedi'i greu gan ddyn ac mae'r hanner arall wedi'i gerfio i mewn i'r graig. Caiff ei galw'n aml yn Ddinas y Rhosyn oherwydd lliw pinc y graig. Mae'n enwog am system ddŵr a adeiladwyd i gyflenwi dŵr i 30,000 o bobl a dyfrhau gerddi. Efallai eich bod chi hefyd wedi ei gweld yn y ffilm Indiana Jones and the Last Crusade!



Sleid 6: Baalbek yn Libanus

Mae yna Safle Treftadaeth y Byd arall yn Baalbek yn Lebanon sydd ag enghreifftiau prydferth o olion pensaernïaeth Rufeinig gan gynnwys traphontydd dŵr, a ffyrdd a theml fawr Jupiter. Ceir llawer o enghreifftiau eraill o bensaernïaeth Rufeinig mewn rhannau eraill o'r Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.



Sleid 7:

Gwesty Burj Al Arab Jumeirah a Thŵr Burj Khalifa

Mae dau dirnod modern arall yn Dubai
yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig
(UAE).

Agorodd gwesty moethus Burj Al Arab Jumeirah yn Dubai
yn 1999 ac mae'n enwog am ei siâp cwch hwylio ar ymys
yn y môr.

Safle arall yw Tŵr Burj Khalifa, sy'n 828 metr o uchder -
sef adeilad talaf y byd ar hyn o bryd. Ynddo mae yna lifft
sy'n teithio'r pellter mwyaf yn y byd - i fyny 160 llawr.



Sleid 8: Dyfeisio a darganfod

Oeddech chi'n gwybod, yn ystod y Canol Oesoedd, fod oes euraidd o ddyfeisio a darganfod pethau yn y byd Arabaidd sydd wedi cael dylanwad ar ein bywyd ni heddiw? Mae'r rhain yn cynnwys melinau gwynt, y camerâu cyntaf, brwshys dannedd a choffi hyd yn oed.

Un stori a adroddir am ddyfeisio coffi yw bod bugail geifr wedi darganfod bod ffa coffi yn rhoi egni i'w anifeiliaid. Felly berwodd yr aeron coffi er mwyn gwneud fersiwn o'r ddiod rydym yn ei hyfed heddiw.

Roedd pwyslais mawr yn cael ei roi ar ddysgu ac ysgolheictod ar y pryd, ac roedd llawer o ddiddordeb mewn gwyddoniaeth, seryddiaetha meddygaeth. Adeiladwyd llyfrgelloedd mawr mewn dinasoedd a merch o'r enw Fatima al-Fihri o Foroco wnaeth sefydlu'r brifysgol gyntaf. Adeiladwyd ysbytai yn darparu gofal am ddim i unrhyw un oedd ei angen, a dyluniodd a chreodd llawfeddyg o'r enw al-Zahrawi offer llawfeddygol fel yr hyn sy'n cael ei ddefnyddio heddiw. Hefyd darganfu y gallai llinynnau tant gael eu defnyddio ar gyfer pwythau mewnol am eu bod yn diflannu'n naturiol. Mae'n debyg y gwnaeth ddarganfod hyn pan wnaeth ei fwnci fwyta llinynnau ei liwt a gwnaethant ddiflannu y tu mewn iddo! Hefyd adeiladodd Peiriannydd o'r enw al-Jazari gloc eliffant anhygoel. Roedd yn saith metr o uchder, gyda dreigiau a phobl yn symud arno, a chafodd ei bweru gan beli metel yn cwmpo a system ddŵr gudd.



Cynllun gwers 1

Cyflwyniad i Arabeg a chelf caligraffeg

Gwybodaeth gefndir

Arabeg Safonol Fodern (neu ASF) yw'r ffurf safonol ar Arabeg a gaiff ei deall ar draws y byd Arabaidd. Caiff ei defnyddio gan y rhan fwyaf o'r cyfryngau newyddion ysgrifenedig, llafar, a gweledol, yn ogystal â mewn llenyddiaeth ac ysgolion.

Ystyrir mai dyma yw cywair ffurfiol Arabeg ac felly dyma'r ffurf mae siaradwyr nad ydynt yn frodorol yn ei hastudio fel arfer pan fyddant yn dysgu'r iaith gyntaf. Fodd bynnag, fel mae Saesneg yn amrywio o un wlad i'r llall, mae gwahanol dafodieithau Arabeg llafar (ac weithiau ysgrifenedig). Gall y tafodieithoedd hyn, a elwir weithiau'n Arabeg llafar, amrywio ar draws y byd Arabaidd, i'r fath raddau y gallai rhywun o Lebanon ei chael hi'n anodd deall rhywun o Dunisia sy'n siarad ei dafodiaith ei hun. Ond gyda theledu, Facebook, a chyfryngau modern eraill yn llwyddo i gyrraedd cynifer o bobl, caiff mwy a mwy o Arabeg llafar, ar bob ffurf, ei chlywed ar draws y byd Arabaidd, gan greu ffyrdd newydd o gyfathrebu i siaradwyr Arabeg – a chynnig mwy o adnoddau i siaradwyr nad ydynt yn siaradwyr brodorol astudio a siarad Arabeg llafar.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm
Cymraeg a Saesneg, Celf a Dylunio, Addysg Grefyddol,
Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd

Sgiliau ac agweddau byd-eang
Cyfathrebu, meddwl yn greadigol, datblygu hunaniaeth
gadarnhaol a bod yn agored i syniadau newydd

Amcanion dysgu
Dysgu am brif nodweddion yr iaith Arabeg a sut i gyfarch
rhywun yn Arabeg. Ysgrifennu rhai geiriau syml yn Arabeg
ac edrych ar galigraffeg Arabeg a 'calligraffiti'

Adnoddau
Taflenni gweithgaredd, peniau neu frwshys caligraffi, inciau
lliwi, templedi anifeiliaid

Cyflwyniad – cyfarchion

Gyda'ch dosbarth, trafodwch natur cyfarchion llafar a chyfarchion nad ydynt yn rhai llafar. Pam rydym yn eu defnyddio? Sawl cyfarchiad gwahanol rydym yn eu defnyddio yn Gymraeg/ Saesneg? Gofynnwch i'ch disgyblion ddangos sut y gallent gyfarch ffrind, perthynas mewn oed, eu pennaeth neu'r Frenhines. Sawl ymadrodd mewn ieithoedd eraill sy'n gyfarwydd i'ch disgyblion? A ydynt yn gwybod beth maent yn eu golygu yn Gymraeg?

Eglurwch mai'r cyfarchiad mwyaf cyffredin ar draws y byd Arabaidd, a glywyd yn y gwasanaeth, yw:

السَّلَامُ عَلَيْكُمْ!

as-salaamu 'alaykum! (tangnefedd arnoch)

A'r ymateb yw:

وَعَلَيْكُمْ السَّلَام!

w'alaykum as-salaam! (a thangnefedd arnoch chithau)

A yw eich disgyblion wedi clywed y cyfarchiad hwn o'r blaen neu wedi ei ddefnyddio? Rhannwch eich disgyblion yn barau a'u hannog i ymarfer y cyfarchiad a'r ymateb hyn gyda'i gilydd.

Y cyfarchiad mwyaf
cyffredin ar draws y
byd Arabaidd yw
as-salaamu 'alaykum!
(tangnefedd arnoch)
a'r ymateb yw
w'alaykum as-salaam!
(a thangnefedd arnoch
chithau)

Cyfarchion

Cyfarchiad cyffredin arall yn y byd Arabaidd yw 'helo':

marHaban! مَرْحَبًا

Er bod y ffordd y caiff ei ddweud yn amrywio o un dafodiaith i'r llall, bydd pob rhan o'r byd Arabaidd yn eich deall os defnyddiwrch yr ymadrodd canlynol i ofyn, 'O ble rydych yn dod?'

min ayna anta?

(gofyn i fachgen neu ddyn)

min ayna anti?

(gofyn i ferch neu fenyw)

من أين أنت؟

A'r ymateb, 'Rwy'n dod o...'

ana min... أنا من...

Anogwch eich disgyblion i ymarfer gofyn i'w gilydd o ble maent yn dod ac ateb yn Arabeg.

I orffen y sgwrs, gall myfyrwyr ddefnyddio'r cyfarchiad a'r ymateb 'tangnefedd arnoch' eto, neu ddefnyddio math arall o hwyl fawr:

ma'a as-salaama!

مَعَ السَّلَامَةِ!

Gweithgareddau – Beth sydd mewn gair?

Mae llawer o eiriau Cymraeg sy'n cael eu defnyddio heddiw a ddaeth yn wreiddiol o'r Arabeg, yn enwedig yn ystod y Canol Oesoedd, pan oedd ysgolheigion Arabaidd yn arweinwyr byd ym maes gwyddoniaeth a ffynnai technoleg a masnach. Mae'r rhain yn cynnwys: algebra, calendr, candi, coffi, cotwm, cyfartaledd, magasin, matres, saffrwn, sero, sierbet, siwgr, sofffa, surop, tambwrîn, traffig.

Ac wrth gwrs, o ran y Saesneg, mae geiriau fel 'computer', 'Facebook', 'mobile' (ffôn), a 'sandwich' hefyd wedi dod yn rhan o'r iaith Arabeg heddiw. Rhannwch y geiriau Cymraeg sydd wedi dod o'r Arabeg gyda'ch disgyblion. Gofynnwch iddynt eu grwpio'n gategorïau gwahanol a siarad am y rheswm pam mae ieithoedd yn 'benthyg' geiriau oddi wrth ei gilydd a sut y gall y rhain fod wedi dod yn rhan o'r iaith Gymraeg. Dangoswch i'ch disgyblion yr enghreifftiau o eiriau y mae'r Gymraeg wedi eu 'benthyg' o ieithoedd eraill ar [Daflen wybodaeth a gweithgareddau 2](#). Gofynnwch iddynt weithio mewn paru er mwyn trafod pa iaith a gwlad maent yn meddwl y mae pob gair yn dod ohonynt ac yna paru eu gair â'r wlad y daw ohoni ar y map.

A allant roi rhesymau dros eu penderfyniadau? Dewch â'r dosbarth ynghyd i drafod p'un a oedd y dewisiadau a wnaed yn debyg. Datgelwch yr atebion cywir a thrafodwch a oeddent yn synnu am unrhyw un o'r geiriau unigol a sawl un sydd wedi eu benthyg o ieithoedd a gwledydd eraill.

alcali, alcemeg, alcof,
algebra, calendr, candi,
coffi, cotwm, lemwn,
matres, saffrwn, sebon,
soffa, siwgr, surop,
tambwrîn

Ysgrifennu mewn Arabeg

Mae gan yr iaith Arabeg wyddor sy'n cynnwys 28 o lythrennau a chaiff ei hysgrifennu o'r dde i'r chwith.

Ceir copi o'r wyddor Arabeg ar [Daflen wybodaeth a gweithgareddau 3](#), a cheir dolenni i adnoddau defnyddiol eraill gan gynnwys caneuon yr wyddor yng nghefn y pecyn. Pan gaiff llythrennau Arabeg eu hysgrifennu, maent yn dilyn rheolau i gysylltu â'i gilydd, fel llawysgrifen redol yn Gymraeg neu Saesneg. Mae rhai llythrennau yn cysylltu ac nid yw eraill, ac mae pob llythyren yn edrych ychydig yn wahanol yn dibynnu p'un a yw ar ddechrau gair, yn y canol, neu ar y diwedd. Er enghraifft, sylwch sut mae'r llythyren ت (fel 't' yn Gymraeg) yn edrych ar ddechrau gair, yng nghanol gair, ac ar ddiwedd gair:

يكتب ت
بيت تأكل

Anogwch eich disgyblion i ymarfer dweud ac ysgrifennu'r geiriau Arabeg hyn, yn gyntaf drwy eu dargopïo ac yna'n ofalus eu copïo ar ddarn o gerdyn, gan gofio symud eu peniau neu bensiliau o'r dde i'r chwith a chynnwys y dotiau sy'n rhan o'r llythrennau.

بيت	(bayt – tŷ)
باب	(baab – drws)
قطة	(qiTTa – cath)
كرسي	(kursi – cadair)
طاولة	(Taawila – bwrdd)

Caligraffeg: creu celf â geiriau

Mae caligraffeg yn nodwedd bwysig a gwahanol iawn o ddiwylliant Arabaidd a gellir ei gweld mewn mathau o gelfyddyd a chyfnodau hanesyddol ar draws y byd Arabaidd.

Eglurwch i'ch disgyblion fod y gair caligraffeg yn golygu 'ysgrifen brydferth', a'i bod yn gofyn am lawer o sgil ac ymarfer i'w meistrolu mewn unrhyw iaith. Mae caligraffeg Arabeg i'w gweld nid yn unig mewn llyfrau, ond hefyd ar lawer o wahanol ddeunyddiau ac fel addurn ar grochenwaith, rygiau a dodrefn. Mae'n gelfyddyd uchel ei barch yn y byd Arabaidd.

Rhannwch rai enghreifftiau o galigraffeg Arabeg gyda'ch disgyblion. Maent i'w gweld ar Daflen wybodaeth a gweithgareddau 4. Drwy newid siâp a maint y llythrennau Arabeg ac ychwanegu addurn, mae artistiaid yn gwneud i'r geiriau edrych yn brydferth. Efallai y caiff y geiriau eu hunain eu hysgrifennu mewn aur, neu liwiau llachar eraill, a gall llythrennau a geiriau gael eu hamlinellu neu eu gosod yn erbyn patrwm cefndir.

Trafodwch pam y gallai pobl ddewis cynhyrchu'r ysgrifen 'arbennig' hon ac anogwch eich disgyblion i greu eu fersiwn addurnedig mawr eu hunain o un o'r geiriau Arabeg y maent wedi'i ddysgu. Gwahoddwch nhw i ddefnyddio peniau neu frwshys caligraffeg ac inciau lliw ar ddarnau o gerdyn ac yna addurno o amgylch eu gair â ffrâm a phatrwm.

Yn Ysgol Gynradd Horton Park yn Bradford, mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu Arabeg fel iaith fodern ers pum mlynedd. Eleni, cyflwynwyd ysgrifennu mewn Arabeg i'r disgyblion fel rhan o'u pwnc Hanes yn edrych ar gymdeithas waraidd Dyffryn Indus. Ymchwiliodd y disgyblion i wahanol fathau o galigraffeg Arabeg a thrafodwyd ble y byddent yn cael eu gweld yn y byd Arabaidd. Gwnaethant ymarfer eu caligraffeg Arabeg ac yna rhoi'r canlyniadau ar ddelweddau o botiau Dyffryn Indus.

[Plant o Ysgol Gynradd Horton Park gyda'u dyluniadau caligraffig ar gyfer potiau.](#)




Mae rhai caligraffegwyr yn ffurfio geiriau yn siapiau geometrig neu siâp planhigion ac anifeiliaid. Mae'r enghreifftiau isod gan yr artist Everitte Barbee.

Weithiau ymadroddion crefyddol o'r Qur'an yw'r geiriau a ddefnyddir mewn lluniau o'r fath ond nid yw hynny bob amser yn wir. Mae'r eliffant isod wedi'i dynnu yn sgript Arabeg Diwani Jali, a ddatblygwyd ar droad yr 16eg ganrif, ond mae'n defnyddio geiriau o ddyfyniad gan y comediwr Americanaidd Groucho Marx: 'One morning I shot an elephant in my pyjamas. How it got into my pyjamas I'll never know!'

Gwahoddwch eich disgyblion i astudio a braslunio anifeiliaid a nodi ychydig o eiriau disgrifiadol neu gyffelybiaethau i'w disgrifio. Anogwch nhw i ddefnyddio'r geiriau hyn i greu siâp yr anifail mewn ffordd ddiddorol ac addurniadol. Gallent ddylunio eu siâp eu hunain neu ddefnyddio un o'r templedi a geir yn y pecyn ar [Daflen wybodaeth a gweithgareddau 5](#). Atgoffwch nhw i chwarae gyda maint a siapiau'r llythrennau yn ysbryd caligraffeg Arabeg.

Ceir enghraifft o rywun yn creu darlun caligraffeg swmomorffig gan ddefnyddio'r Saesneg yma:

<https://egotistsclub.wordpress.com/tag/calligraphy>



Gweithgareddau ychwanegol

Mae caligraffiti yn fath o gelfyddyd gyfoes sy'n cyfuno llawysgrifen draddodiadol â chelf stryd graffiti.

Gofynnwch i'ch disgyblion ddysgu mwy am y math o gelfyddyd newydd hwn ynghyd ag artistiaid fel eL Seed sy'n cyfuno caligraffeg Arabeg â diwylliant stryd. Yn 2012 gorffennodd eL Seed ei ddarn mwyaf ar finarét ar Fosg Jara yn Nhiwnisia. Wedi cael sêl bendith llywodraethwr y dref ac Imam y mosg, mae'n rhannu neges o undod a goddefgarwch. Efallai y gallai eich disgyblion roi cynnig ar galigraffiti, gan ddefnyddio eu sgiliau dylunio ac Arabeg. Ceir dolen i ffilm o ddisgyblion ysgol yn gweithio gyda'r artist i greu murluniau caligraffiti yn yr Amgueddfa Gelf Islamaidd yn Catar yma am ysbrydoliaeth.

<https://www.youtube.com/watch?v=qpFz5Ryg6eU>

Llun: Caligraffiti ar Fosg Jara (Tiwnisia). Ffotograff gan Ouahid Berrehouma - Comin Creadigol (Creative Commons): CC BY-SA 3.0



Cynllun gwers 2

Mathemateg, patrymau a'r byd Arabaidd

Mathemateg

Mae mathemategwyr o'r byd Arabaidd yn enwog am gyflwyno cyfoeth o ddysgu newydd i faes mathemateg.

Mae hyn yn cynnwys algebra, y cysyniad o sero, ffracsiynau, y system rifo ddegol, sin a chosin a geometreg.

Cyflwynwch i'ch dosbarth enwau a symbolau'r rhifau un i ddeg mewn

Arabeg, sydd, yn wahanol i eiriau Arabeg, yn cael eu darllen o'r dde i'r chwith.

Sylwch sut mae'r rhifau yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwn yn Gymraeg neu Saesneg. Yr enw ar y symbolau a ddefnyddir yn Gymraeg neu

Saesneg yw 'rhifau Arabeg' neu 'rifau Indo-Arabeg', oherwydd dysgodd yr Ewropeaid sut i'w hysgrifennu gan Arabiaid, a'r enw ar y symbolau a ddefnyddir yn Arabeg yw 'rhifau Hindŵ' am eu bod wedi cyrraedd y byd Arabaidd o India.

Er mwyn helpu eich disgyblion i ddod yn gyfarwydd ag enwau'r rhifau Arabeg, rhowch gerdyn rhifau i bob aelod o'r dosbarth o Daflen wybodaeth a gweithgareddau 6 a gofynnwch iddynt sefyll i fyny pan fyddant yn clywed eu rhif. Unwaith y gwneir hyn ychydig o weithiau, rhannwch y plant yn dimau. Cymysgwch y rhifau a rhowch un i bob plentyn yn y tîm. Amserwch faint mae'n ei gymryd i'w rhoi yn nhrefn y rhifau (gall unrhyw blentyn sydd heb gardiau helpu eu tîm o hyd).

Defnyddiwch y cardiau Bingo ar Daflen wybodaeth a gweithgareddau 7 i helpu eich disgyblion i adnabod y rhifau a ddefnyddir yn Arabeg drwy weiddi rhifau ar hap. Pan fydd disgybl yn cael tri mewn rhes, bydd yn gweiddi 'Bingo!' neu 'Ana' yn Arabeg.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm
Cymraeg a Saesneg, Mathemateg, Celf a Dylunio

Sgiliau ac agweddau Byd-eag
Meddwl yn feirniadol, meddwl yn greadigol, cyfathrebu

Amcanion dysgu
Dysgu cyrif mewn Arabeg o un i ddeg ac adnabod ac ysgrifennu rhai rhifau syml. Edrych ar deselu, siâp a chymesuredd mewn patrymau

Adnoddau
Copïau o gardiau rhif un i ddeg o'r pecyn hwn. Copïau o batrymau geometreg ar y daflen weithgaredd, papur dargopïo, peniau lliw a phensiliau

Rhifolion yn Arabeg

—

0	◌	Sifr
1	١	waaHid
2	٢	ithnaan
3	٣	thalaatha
4	٤	arba'a
5	٥	khamisa

6	٦	sitta
7	٧	sab'a
8	٨	thamaaniya
9	٩	tis'a
10	١٠	'ashara


Hwyl gyda dyluniadau geometreg Arabaidd

Mae dyluniadau geometreg sy'n defnyddio siapiau mathemategol, ailadrodd a chyfatebiaeth yn nodwedd bwysig o gelf a diwylliant Arabaidd.

Gall cyfuno ond ychydig o siapiau greu patrymau rhyng-gysylltiedig prydferth a chymhleth, sef Arabésg. Dangoswch rai enghreifftiau o gelf a phensaerniaeth Arabaidd i'ch disgyblion a addurnwyd â phatrymau geometreg cywrain, ailadroddus. Ceir enghreifftiau ar wefan Islamic Art yn: <http://patterninislamicart.com>

A all eich disgyblion weld gwahanol siapiau ac enghreifftiau o deselu yn ogystal â chyfatebiaeth llinell a chymesuredd? Pa un yw eu hoff ddyluniad?

Rhowch gopi o'r patrwm geometreg ar [Daflen wybodaeth a gweithgareddau 8](#). i'ch disgyblion. Mewn gwirionedd, mae'r dyluniad cymhleth hwn yn seiliedig ar un siâp syml wedi'i ailadrodd mewn ffyrdd gwahanol. A all eich disgyblion weld y siâp cychwynnol a dod o hyd i seren chwe phwynt, triongl, diemwnt mawr, hecsagon a llinellau cymesuredd yn y dyluniad? Gofynnwch iddynt ddefnyddio papur dargopïo i gopïo'r holl fathau o siapiau 2D ac yna ddefnyddio lliw i greu patrwm cymesurol addurniadol.



Celf a dylunio – creu eich patrymau ailadroddus eich hunain

Fel rydym wedi'i weld yn barod, caiff caligraffeg a phatrymau geometreg cywrain eu defnyddio'n aml i addurno gwrthrychau ac maent yn rhan annatod o bensaernïaeth ac adeiladau.

Nid cyfeirio at gelf grefyddol a wna 'celf Islamaidd' ond at fathau o gelf sy'n benodol i gymdeithasau Mwslimaidd yn bennaf, fel y rheini yn y byd Arabaidd. Yn wahanol i grefyddau eraill, nid yw celf Islamaidd yn defnyddio delweddau o bobl nac anifeiliaid fel rheol ond mae'n cynnwys dyluniadau o blanhigion a blodau.

Rhannwch y cyfarwyddiadau ar Daflen wybodaeth a gweithgareddau 9 gyda'ch dosbarth er mwyn creu ei batrymau ailadroddus ei hun. Yna gall eich disgyblion sganio eu dyluniadau a defnyddio rhaglen baent i adlewyrchu a theselu eu delwedd er mwyn creu patrwm ailadroddus.



Cynllun gwers 3

Adrodd Straeon yn y byd Arabaidd

Adrodd Straeon

Mae'r byd Arabaidd hefyd yn enwog am ei lenyddiaeth a'i draddodiad o adrodd straeon a chwedlau. Un o'i storiwyr mwyaf nodedig oedd Luqman Bin 'Ad. Roedd e'n ddyn doeth ac fe ysgrifennodd lawer o straeon am anifeiliaid. Wrth wrando ar y ddwy stori fer yma ceisiwch feddwl am y moeswersi sydd ynddynt, ac a ydynt yn eich atgoffa o unrhyw chwedlau eraill yr ydych wedi eu clywed.





Y Llew a'r Llwynog

Y Llew oedd brenin y goedwig, a gan fod yr holl anifeiliaid eraill yn ei ofni roedden nhw'n gwneud eu gorau i fod yn ffrindiau gydag ef. Aeth sawl blwyddyn heibio, a doedd y Llew, a oedd yn mynd yn hen erbyn hyn, ddim yn gallu hela gystal ag o'r blaen. Doedd e ddim yn gallu rhedeg a stelcio gystal â phan yr oedd yn ifanc. Fe benderfynodd gilio i ogof ac esgus ei fod yn sâl. Wrth gwrs, roedd yr holl anifeiliaid eraill eisiau ymweld â'u Brenin achos roedden nhw'n meddwl ei fod e'n sâl. Ond bob tro y byddai anifail yn ymweld â'r Llew yn yr ogof a dangos eu bod yn poeni amdano, byddai'r Llew yn eu llarpio a'u bwyta. Un diwrnod daeth llwynog i geg yr ogof, ond roedd e'n gwrthod mynd i mewn. O'r tu mewn i'r ogof gofynnodd y llew wrtho, "Pam nad wyt ti eisiau dod i mewn i'r ogof, gyfaill?"

"Roeddwn i'n mynd i ddod i mewn" atebodd y llwynog gan edrych ar y ddaear o gwmpas ceg yr ogof, "ond er mod i'n gallu gweld olion traed yr holl anifeiliaid sydd wedi mynd i mewn i'r ogof, dydw i ddim yn gallu gweld unrhyw olion traed yn dod allan!"



Y Ceiliog Balch

Un diwrnod roedd dau geiliog yn ymladd yn ffyrnig. Ar ôl y frwydr, aeth y ceiliog a oedd wedi colli i orwedd yng nghysgod llwyn pomgranad cyfagos. Hedfanodd y ceiliog buddugol i ben ffens uchel. Ymestynnodd ei adenydd a'u fflapio'n falch, gan glochdar yn uchel a brolio am y frwydr yr oedd newydd ei hennill. Fe welodd fwltur y ceiliog balch ar ben y ffens, ac fe ysgubodd i lawr o'r awyr a chydio yn y ceiliog gyda'i grafangau cryf a'i gipio i fwrdd.

Daw'r straeon yma o 'The Fables of Lugman' (pecyn 'The Arabs: Activities for the Elementary and Middle School Level') – atgynhyrchir yma gyda chaniatâd Audrey Shabbas ac AWAIR

Yr Aifft

Yr Afon Nîl yng Nghairo

Mae'r Afon Nîl yng Nghairo yn lle hyfryd sy'n boblogaidd gyda thwristiaid yn ogystal â thrigolion lleol. Am filoedd o flynyddoedd roedd rheolwyr yr Aifft yn defnyddio'r Nîl i gario pobl a nwyddau – ac yn aml fel ffordd o gyrraedd mewn steil. Mae'r Nîl yn dal yn gyrchfan boblogaidd heddiw i ffrindiau a chyplau sydd eisiau llogi cwch ar gyfer penwythnos diog - i ddianc rhag traffig prysur y ddinas a mwynhau'r tawelwch.

Y cwch mwyaf poblogaidd ar yr Afon Nîl, o bell ffordd, yw'r felucca. Cwch hwylio bach sy'n cael ei lywio'n fedrus gan y marakbi - morwyr meistrolgar sy'n gwybod sut i gyfeirio hwylliau mawr y cwch i fanteisio ar gyfeiriad y gwynt. Mae'r marakbi yn llywio'r felucca yn esmwyth a hyderus ar draws dyfroedd llonydd yr afon, gan fwynhau cwmni'r rheini sydd wedi dewis hwylio yn ei gwch. Gan nad oes signal ffôn rhy dda ar y Nîl, mae'r teithwyr i gyd yn mwynhau sgwrsio gyda'i gilydd. Weithiau maent yn canu a dawnsio hefyd – ac yn aml iawn maent yn bwyta a rhannu eu bwyd gyda'r marakbi. Ac mae'r marakbi yn rhoi gwên garedig iddyn nhw, gan rannu ychydig o dawelwch cefn gwlad gyda thrigolion y ddinas. Mae'n hawdd adnabod marakbi achos mae e'n gwisgo galabeya hir, twrban a sbectol haul.



Stori Hynt a Helynt y Nîl



Nawr, mae yna rhai pobl yn y byd sy'n edrych am unrhyw gyfle i gymryd mantais o bobl hawddgar. Pan fyddant yn cwrdd â pherson hawddgar, maen nhw'n cymryd mantais o'i garedigrwydd a'i empathi – i'w dwyllo a chymryd beth bynnag y gallant oddi wrtho. Yn yr Aifft, yr enw am dwyllwr o'r fath yw nasaab. Dyw e ddim fel y marakbi, achos dydych chi ddim yn gwybod fod person yn nasaab nes ei bod yn rhy hwyr ac rydych ar fin cael eich twyllo! Maen nhw'n cadw o'r golwg, ac ar ôl twyllo person mewn un lle, dydyn nhw byth yn dychwelyd i'r lle yna eto.

Ond weithiau. Mae'r nasaabean gorau yn dychwelyd yn ôl i'r un lle ddwywaith, deirgwaith neu bedair gwaith – i brofi pa mor glyfar ydyn nhw, neu i ddangos pa mor naïf yw'r rheini sy'n cael eu twyllo.

Dyma stori am 'Nasaab Rhif Un' – neu o leiaf, dyna'r oedd yn galw ei hun (enw a ddewisodd ar ôl cân boblogaidd y gallwch ei chlywed yn chwarae ar bob radio yng Nghairo). Roedd y dyn yma, Rhif Un, yn meddwl mai fe oedd y twyllwr/nasaab gorau erioed. Ond beth yw ei enw go iawn, medde chi? Does neb yn gwybod, achos mae e'n dewis enw gwahanol ar gyfer pob tric – 'Ahmed' neu 'Youssef' neu 'Fawzy'. Yn y flwyddyn cyn digwyddiadau'r stori yma, roedd Rhif Un wedi priodi merch mewn seremoni fawreddog yng ngwesty moethus y 'Four Seasons' a threulio mis mêl ar y Riviera yn Ffrainc. Yna, roedd wedi llwyddo i gael llond stabl o geffylau rasio Arabaidd, car Maserati, tŷ mawr crand yn edrych allan dros y Nîl, a chi pŵdl bach – y cyfan heb wario ceiniog o'i arian ei hun.

Un bore braf o wanwyn, roedd Rhif Un yn ei ardd ar lan yr Afon Nîl - yn craffu ar y feluccas gyda'i lygaid main wrth iddyn nhw hwylio ar draws y dŵr. Bob bore, roedd Rhif Un yn hoffi eistedd yn dawel yng ngardd ei dŷ crand ar lan y Nîl gyda phaned o de - yn cynllunio diwrnod arall o dwyllo a thriciau. Wedi'r cyfan, roedd bod mor glyfar â hyn yn waith caled! Ond, roedd gweld yr holl feluccas yn croesi yn ôl ac ymlaen bob dydd, a chlywed sŵn y grwpiau o ffrindiau yn chwerthin a gwrando ar gerddoriaeth ar fwrdd y cychod yn dân ar groen Rhif Un.

"Beth sy'n bod, fy nghariad annwyl?" gofynnodd ei wraig, Samira, a oedd yn dwlu ar ei gŵr. Er ei bod hi'n gwybod yn iawn am ei ddulliau twyllodrus, yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl foesol, roedd hi'n edmygu ei driciau ac yn hoffi'r holl bethau da yr oedd Rhif Un yn eu cael drwy dwyllo. Ond yn fwy na dim, roedd hi'n hoffi cael diemwntau, cotiau ffwr a macarŵns yn anrhegion ganddo.

"Alla i ddim meddwl!" gwaeddodd Rhif Un gan godi'n sydyn a bwrw ei gadair bambŵ drosodd. Cyfarthodd Bosbos (ei gi pŵdl drud) yn bryderus.

"Nawr fod gen i gymaint o eiddo - y tu hwnt i freuddwydion y rhan fwyaf o bobl - mae'n rhaid i mi fod hyd yn oed yn fwy barus, a hyd yn oed yn fwy creadigol! Ond does dim llonydd i'w gael yma - gyda holl sŵn y cychod hwylio dwl yna gyda'r holl bobl ddwl yna'n canu eu caneuon dwl, alla i ddim meddwl!"

Crychodd Samira ei thrwyn; doedd hi ddim yn un o feddylwyr mawr y byd. Ond, roedd hi'n gwybod, ymhen ychydig funudau, byddai ei hathrylith o ŵr yn siwr o ffeindio ateb! Ac yn wir, eiliad yn ddiweddarach, daeth gwên fawr ar wyneb Rhif Un.

"Rwy'n mynd i reoli'r Afon Nîl i gyd - yn union fel y gwnaeth y Ffaros. Ac fe wna i stopio'r feluccas rhag croesi'r afon pryd bynnag maen nhw eisïau. Maen nhw'n mynd i ddifaru croesi fy llwybr i ac ymddwyn mor ddifeddwl!"

Drannoeth, aeth Rhif Un draw i gyrchfan fwyaf poblogaidd y feluccas ar y Nîl. Aeth Samira gydag ef - yn ei dillad mwyaf crand a ffansi. Hwn fyddai'r tro cyntaf iddi weld ei gŵr wrth ei driciau, ac roedd hi'n teimlo fel rhiant balch yn mynd i weld gêm bêl-droed gyntaf ei phlentyn.

Ond, doedd Rhif Un na Samira ddim yn gwybod un peth pwysig. Roedden nhw ar fin cwrdd â gwraig a oedd mor ddoeth doedd dim ffordd y gallai unrhyw un ei thwylio. Ei henw oedd Al Hagga Sawsan - a hi oedd yn rheoli holl fusnes y feluccas.

Roedd Al Hagga Sawsan wedi cael ei magu gan y marakbeya ac wedi treulio ei bywyd ar y Nîl. Doedd neb wedi disgwyl rhyw lawer ganddi, ac felly roedd pawb wedi synnu ei bod hi wedi llwyddo - ar ei phen ei hun - i adeiladu ymerodraeth felucca fawr a oedd yn ymestyn ar hyd y Nîl.

Roedd Al Hagga Sawsan yn hoffi byd a busnes y cychod, achos roedd hi'n teimlo ei fod yn ffordd dda i ddod i adnabod pobl, a dod i adnabod eu gwir gymeriad hefyd. Bellach roedd hi'n byw a gweithio yng Nghairo, ac roedd ganddi bob math o gwsmeriaid – o dwristiaid i weinidogion y llywodraeth. Ond er hyn oll, roedd pobl yn dal i'w diystyru a gofyn am gael siarad gyda'i rheolwr. Roedd hi wedi hen arfer â phobl yn ei diystyru, a dyna pam yr oedd hi'n mor dda am synhwyro ac adnabod nasaabeen.

"Salam alaykum!" meddai Rhif Un fel brenin crand wrth iddo gamu'n falch ar hyd y lanfa. Ystyr y cyfarchiad yma yw "Tangnefedd arnoch", ond nid dyna oedd dymuniad Rhif Un o gwbl. Roedd Al Hagga Sawsan yn eistedd ar stôl ledr isel yn y cysgod, gyda phaned o de du mintys yn ei llaw. Roedd hi'n gwisgo galabeya glas tywyll, ac roedd ei gwallt cyrliog tywyll wedi'i glymu'n ôl mewn twrban gyda stribedi gwyn a glas.

"Alaykum al salam!" atebodd hi gan sipian ei the.

Ni atebodd Rhif Un yn syth, achos roedd e'n edrych o gwmpas am ddyn. Ond gan fod pob un o'r marakbeya allan yn eu cychod, doedd ganddo ddim dewis ond siarad gyda'r wraig yma a oedd yn eistedd ar y lanfa.

"Rwyf wedi dod yma gyda chyfle unwaith mewn oes. Cyfle i chi newid eich bywydau bach cyffredin – cyfle i chi yrru car Mercedes yn lle felucca! Ble mae eich rheolwr fel y gallaf drafod y mater gydag ef?"

Gwenodd Al Hagga Sawsan yn araf. "Fi yw'r person sydd ar gael." atebodd. "Mae croeso i chi drafod eich busnes gyda fi." Gwelodd ei ysgwyddau'n disgyn a'i lygaid yn culhau. Yna, fe chwyddodd ei hun yn llawn balchder eto, ac mewn llais crand meddai..

"Myfi yw Ibrahim Ali Pasha, gor, gor, gor-wyr Mohammed Ali Pasha a oedd yn rheoli'r Aifft gyfan yng nghyfnod y Brenhinoedd a'r Arlywyddion. Mae fy nghyfeillion agos wedi argymhell i mi ddod yma i ddefnyddio eich gwasanaeth ar gyfer seremoni fawreddog sy'n mynd i gael ei chynnal ar y Nîl. Bydd angen pob un o'ch cychod arnaf, a bydd angen i bob un o'ch marakbeya fod yn bresennol hefyd. Ac mae'n rhaid i ni adael nawr, felly mae'n rhaid i hyn ddigwydd ar unwaith. Fe gewch eich gwobrwyo'n hael am ddeall fod hwn yn gais munud olaf.

"A pha fath o seremoni yw hon?" gofynnodd hi

"Yn anffodus, ni allaf rannu unrhyw fanylion pellach gyda chi gan fod hwn yn fater o ddiogelwch cenedlaethol. Nawr, gwrandewch! Rydw i'n ddyn gwirioneddol bwysig a phrysur iawn, ac felly os ydych chi'n gwrthod y cyfle yma, mae hynny'n ddigon teg - ond fe wnaif i roi'r cyfle yma i griw felucca arall."

"O, f'anwylyd, rydw i mor eiddgar i hwyllo ar felucca heddiw" meddai Samira (yn union fel yr oedd wddi ymarfer cyn gadael y tŷ.

"Fy annwyl wraig, rwy'n siwr na fyddwch chi'n cael eich siomi" atebodd Rhif Un.

Arhosodd Rhif Un yn awchus i glywed ateb yr hen wraig. Gan ei fod e'n meddwl ei bod hi'n hen ac ychydig yn syml, roedd e'n gwbl sicr y byddai hi'n derbyn ei gynnig. 'Wedi'r cyfan', arian yw'r peth sy'n cymhell pawb', meddylodd wrtho'i hun. 'Mae'r cynnig yma'n abwyd rhy dda iddi ei wrthod. Fydd dim syniad ganddi am fy nghynllun. Achos, ar ôl iddi hi gasglu'r holl feluccas ynghyd, fe fydd yna dân anesboniadwy yn cydio a lledu o hwyl i hwyl - nes bod pob un o'r cychod wedi suddo ac yn gorwedd mewn bedd gwlyb, o olwg pawb am byth, ar waelod y Nîl'.

Edrychodd Al Hagga Sawsan yn araf - o'r gŵr, draw at ei wraig, ac yna'n ôl at y gŵr. Roedd yn amhosib gweld na gwybod beth yr oedd hi'n meddwl y tu ôl i'w sbectol haul.

Wrth iddi godi'n araf o'i stôl, atebodd, "Wrth gwrs, rwy'n arfer gofyn am daliad o 50% ymlaen llaw - cyn gadael i gwsmeriaid hwylio un o fy feluccas. Ond heddiw, dydw i ddim yn mynd i godi'r taliad yna arnoch chi, ŵr annwyl a'ch gwraig hardd. Rydych chi'n bobl anrhydeddus, ac fe fyddai'n fraint fawr petai un o fy nghychod yn cael eich cario. Yn wir, rwy'n credu y gallwn ni wneud eich seremoni hyd yn oed yn well."

Roedd Rhif Un yn dechrau teimlo'n gyffrous ac roedd e'n gwrando'n ofalus nawr.

"Ond does dim rhaid i chi deithio mewn hen felucca salw o gwbl - beth am i chi gymryd ein cwch hwylio mwyaf crand? Drychwch! Dyna fe fan acw, wrth y lanfa - yn barod i fynd. Dim ond gweinidogion y llywodraeth sy'n cael hwylio ynddo. Mae'r holl welydd y tu mewn wedi'u gorchuddio ag aur, ac mae'r tapiau a'r tŷ bach wedi'u gorchuddio â diemwntau. Mae'n dipyn o ryfeddod. Does dim cwch hwylio tebyg iddo. Mi fyddwn i'n hapus iawn i'w fenthyg i chi ar gyfer y seremoni."

Gwelodd Al Hagga Sawsan fod llygaid y gŵr a'r wraig yn fawr fel soseri. Roedden nhw mor farus. Roedd hi'n gallu gweld yr olwynion yn troi a throi ym mhen Rhif Un wrth iddo addasu ei gynllun. Roedd Al Hagga Sawsan yn gwybod fod y rhan fwyaf o bobl yn dueddol o ddatgelu eu gwir natur yn eithaf buan yn ystod sgwrs; ond mae'n rhaid i chi wybod am beth i wrando...ac am beth i beidio â gwrando arno.

Ac yn wir i chi, fe benderfynodd Rhif Un a Samira fod ennill mwy o gyfoeth yn bwysicach na'r broblem gyda sŵn y cychod. Ac felly, fe gymeron nhw allweddîr cwch hwylio crand. Doedd ganddyn nhw ddim syniad mai cwch un o weinidogion y llywodraeth oedd y cwch yma; a'i fod wedi gofyn i Al Hagga Sawsan i ofalu amdano. Cyn gynted ag y gadawodd Rhif Un a Samira y lanfa a throi marakbi'r cwch hwylio crand yn gyflym ac esmwyth i ddyfroedd y Nîl, rhoddodd Al Hagga Sawsan alwad i heddlu'r Nîl a oedd gerllaw.

A dyna sut y cafodd nasaab arall ei ddal. Cafodd y stori ei hadrodd ym mhob un o'r papurau newydd lleol. Ni fyddai Rhif Un yn gallu twyllo pobl hawddgar na dwyn eu heiddo fyth eto. Ac wrth gwrs, os byddwch chi eisiau diolch i rywun am hyn, fe allwch logi felucca gan Al Hagga Sawsan. Bydd hi yno'n eistedd ar y lanfa, yn sipian ei the!

Gweithgareddau Hynt a Helynt y Nîl

Stori fodern gan yr awdur Arabaidd cyfoes Dina Elabdam am dwyllwr sy'n cael ei drechu gan hen wraig gyfrwys sy'n byw ar lan yr Afon Nîl.

Bydd angen copïau o'r stori ar gyfer aelodau'r dosbarth.

Amcanion y gweithgaredd

Tanio dychymyg y dysgwyr gyda stori gan awdur Arabaidd cyfoes, a chyflwyno gweithgareddau i gyfoethogi eu dealltwriaeth, eu hamgyffred a'u profiad o destun y stori.

Gweithgareddau trafod

Mae'r byd Arabaidd yn enwog am ei lenyddiaeth a'i draddodiad o adrodd straeon a chwedlau. Dywedwch beth yw teitl y stori wrth y dosbarth a gofynnwch iddynt ddyfalu pa fath o stori fydd hon, cyn ei darllen gyda nhw.

Trafodwch beth yr oedd y dysgwyr yn ei hoffi am y stori ac os cawson nhw eu synnu neu eu drysu gan unrhyw ran o'r stori.

Creu geirfa

Mae nifer o eiriau ac ymadroddion Arabeg yn y stori. Rhowch gopïau o'r stori i'r dysgwyr fel y gallant ei darllen eto – mewn parau. Gofynnwch iddyn nhw ffeindio'r geiriau/ymadroddion canlynol a cheisio canfod eu hystyr wrth edrych ar y cyd-destun y maent yn cael eu defnyddio yn y stori.

felucca

marakbi

galabeya

nasaab

salam alaykum

Yna, gallant ddefnyddio'r wybodaeth yma i greu geirfa ar gyfer dysgwyr eraill.

Hynt a Helynt y Nîl Gweithgareddau

Cymeriadau ar y wal

Gofynnwch i'r dosbarth sut y byddent yn disgrifio cymeriadau Rhif Un ac Al Hagga Sawsan. Ydyn nhw'n gallu ffeindio geiriau neu ymadroddion yn y testun sy'n cadarnhau eu disgrifiad o'r cymeriadau? Gofynnwch iddyn nhw dynnu lluniau mawr o'u dehongliad nhw o'r ddau gymeriad, ac yna ysgrifennu geiriau neu ymadroddion ar nodiadau post-it i ddisgrifio sut mae'r cymeriadau'n edrych a pha fath o bersonoliaethau sydd ganddynt. Gallant lynnu'r geiriau hyn o gwmpas ymylon eu lluniau i greu arddangosfa o'r cymeriadau. Os yw ystod geiriau'r dysgwyr yn gyfyng, annogwch nhw i ehangu eu dewisiadau drwy ddefnyddio thesawrws i ffeindio geiriau sy'n gyfystyr â geiriau fel 'mên', 'cas' a 'barus'.

Mae llawer o straeon Arabaidd yn cynnwys moeswers. A all eich dysgwyr grynhoi moeswers y stori hon mewn un frawddeg? Ydyn nhw'n credu y bydd Rhif Un wedi dysgu ei wers? Beth allai ddigwydd nesaf? Gofynnwch i'ch dysgwyr greu stori bapur newydd sy'n adrodd sut y cafodd Rhif Un ei ddal a'i restio. Atgoffwch nhw i gynnwys (ac ateb) y pum cwestiwn allweddol – Pwy? Beth? Ble? Pryd? Sut? Hefyd, bydd angen penawd bachog ar y stori a chyfweliadau gyda llygad-dystion.

Ymchwil

Mae'r Afon Nîl yn chwarae rhan bwysig yn y stori hon. Gofynnwch i'ch dysgwyr wneud ychydig o'u hymchwil eu hunain am yr Afon Nîl a'r rhan hynod o ddiddorol mae'r afon wedi ei chwarae yn hanes Yr Aifft. Yna, gallant greu ffeil byr o ffeithiau gyda lluniau/darluniadau a defnyddio'r wybodaeth yma i ysgrifennu eu straeon eu hunain wedi'i lleoli ar lannau'r Afon Nîl neu yng nghyffiniau'r afon.



Cynllun gwrs 4

Dathliadau, gwyliau a bywyd
bob dydd pobl ifanc ledled
y byd Arabaidd

Gwybodaeth gefndirol



Er bod llawer o bobl yn y Gorllewin yn cysylltu'r byd Arabaidd ag Islam, mewn gwirionedd mae'r byd Arabaidd yn gartref i bobl o lawer o wahanol grefyddau. Roedd y Cristnogion cynharaf yn dod o lefydd sy'n rhan o'r byd Arabaidd heddiw, a cheir poblogaethau mawr o Gristnogion mewn llawer o wledydd Arabaidd heddiw.

Am gryn dipyn o hanes, mae Iddewon wedi byw ledled y byd Arabaidd ochr yn ochr â Mwslemiaid a Christnogion, ac mae gan rai gwledydd boblogaethau Iddewig bach o hyd. Hefyd, caiff llawer o ganghennau o Gristnogaeth ac Islam eu harfer ar draws y byd Arabaidd, ynghyd â grwpiau crefyddol eraill fel y Drwsiaid (a geir yn Nwyrain ardal Môr y Canoldir). Drwy ddarllen y llythyrau gan blant o'r byd Arabaidd, gall eich disgyblion gael cipolwg ar yr amrywiaeth crefyddol a diwylliannol sy'n bodoli.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach, ac eglurwch fod gennych lythyrau gan blant sy'n byw mewn gwledydd Arabaidd heddiw, sy'n sôn am eu bywydau bob dydd. Maent yn disgrifio beth sy'n digwydd yn ystod ac ar ôl yr ysgol, y gwyliau maent yn eu dathlu, a'u hoff fwydydd. Rhowch gopiâu o rai o'r llythyrau o Daflen wybodaeth a gweithgareddau 10 i bob grŵp. Penderfynwch ba rai sydd fwyaf priodol i lefelau darllen y plant.

Gofynnwch i'ch disgyblion ddarllen y llythyrau fel grŵp, a thrafod a chofnodi eu hymatebion i'r cwestiynau canlynol:

- Beth yw enwau'r plant a ysgrifennodd y llythyrau, ac o ba wledydd maent yn dod? A allwch weld ble maent yn byw ar fap o'r byd?
- Beth maent yn arbennig o hoff o'i wneud?
- Beth allwch chi ei weld sy'n debyg ac yn wahanol rhwng eu bywydau nhw a'ch bywydau chi?
- Beth yw'r darn mwyaf diddorol neu annisgwyl o wybodaeth y gwnaethoch ei ddarllen yn y llythyrau?
- Petach chi'n gallu gofyn cwestiwn wrth un o'r plant a ysgrifennodd lythyr, beth fydddech chi'n ei ofyn?

Gofynnwch i'ch disgyblion ysgrifennu ateb i un o'r llythyron, neu baratoi cyflwyniad byr neu ffilm fer yn disgrifio diwrnod arferol yn eu bywyd bob dydd.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm
Cymraeg, Saesneg, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd, Addysg Grefyddol

Sgiliau ac agweddau byd-eang
Cyfathrebu, datblygu ymwybyddiaeth gadarnhaol o hunaniaeth, a bod yn agored i syniadau newydd

Amcanion dysgu
Dysgu am fywyd bob dydd plant sy'n byw mewn gwledydd ledled y byd Arabaidd

Cynllun gwers 5

Cerddoriaeth

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Cymraeg, Saesneg, Addysg Bersonol, Gymdeithasol
ac Iechyd, Addysg Grefyddol

Sgiliau ac agweddau byd-eang

Cyfathrebu, datblygu ymwybyddiaeth gadarnhaol
o hunaniaeth, a bod yn agored i syniadau newydd

Amcanion dysgu

Dysgu am fywyd bob dydd plant mewn gwledydd
ledled y byd Arabaidd

Gwybodaeth gefndir

Mae cerddoriaeth draddodiadol a chlasurol yn rhan bwysig o ddiwylliant Arabaidd ac mae wedi cael cryn ddylanwad hefyd ar y gerddoriaeth Orllewinol yr ydym yn gwrandio arno heddiw. Gwelir cerddorion yn chwarae offerynnau mewn gweithiau celf o'r byd Arabaidd a luniwyd dros 800 mlynedd yn ôl; ac fe gafodd cerddoriaeth Arabaidd ei gario ledled Ewrop gan gerddorion crwydrol. Yn fras, gellir rhannu offerynnau cerdd Arabaidd i dri chategori: offerynnau llinynnol, chwythbrennau, ac offerynnau taro.

Mae gwreiddiau llawer o offerynnau gorllewinol modern yn yr offerynnau traddodiadol hyn. Roedd y qitara yn fersiwn gynnar o'r gitâr, a'r rababah yn ffurf ar ffidil gynnar. Ymysg offerynnau poblogaidd eraill mae'r qanun (offeryn tebyg i sither bwrdd) a'r liwt (a fyddai'n cael ei blycio â phlun fwlur). Yn y London Language Show 2020, cynhaliwyd gweminar ar y cyd gan y British Council a QFI gyda cherddorion ac artistiaid Arabaidd cyfoes. Os hoffech ddangos rhannau o'r digwyddiad yma i'ch dosbarth, mae recordiad o'r sesiwn ar gael yma: <https://www.youtube.com/watch?v=s1l8aSRSS5k&feature=youtu.be>

Heddiw mae cerddoriaeth bop Arabaidd hefyd yn boblogaidd ymhlith pobl ifanc a chynulleidfaoedd sioeau teledu llwyddiannus fel Arabs Got Talent! Gofynnwch i'ch dysgwyr wneud ychydig o waith ymchwil annibynnol ar gerddoriaeth ac offerynnau Arabaidd a rhannwch gân Arabaidd gyda nhw. Mae'r gân Aal Maya yn dangos sut mae cerddoriaeth draddodiadol yn cael ei rannu ar draws y byd Arabaidd: <https://www.youtube.com/watch?v=G3aTsZmiE4>. Canwyd y gân yn wreiddiol gan Diyab Mashhoor o Irac, ond mae'n gân boblogaidd yng Ngwlad Iorddonen, Syria a Phalestina hefyd. Nid oes angen achlysur arbennig i ganu'r gân. Mae'n gân serch hapus a syml a gellir ei chanu unrhyw bryd. Yn draddodiadol, bydd unawdydd yn canu'r pennill ac yna bydd grŵp o gantorion yn ymuno â'r corws, Aal Maya. Mae llawer o wahanol enghreifftiau o ganeuon a cherddoriaeth Arabaidd ar YouTube. Pa bynnag gân a ddewiswch, annogwch eich dysgwyr i ymuno – fel bod y dosbarth cyfan yn canu!

I orffen eich prosiect a dathlu yr hyn y mae eich dosbarth wedi ei ddysgu, beth am wahodd dosbarthiadau eraill a rhieni i ddod i rannu'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu am y byd Arabaidd a gweld y gwaith celf yr ydych wedi'i greu. Gallwch berfformio a rhannu ambell gân Arabaidd hefyd, a chynnig bwyd Arabaidd blasus i'r gynulleidfa drwy baratoi rhai o'r ryseitiau ar [Daflen Wybodaeth a Gweithgareddau 11](#).

Taflenni gwybodaeth a gweithgareddau


Cysylltiadau â'r cwricwlwm
Cymraeg, Saesneg, Addysg Bersonol, Gymdeithasol
ac Iechyd, Addysg Grefyddol

Sgiliau ac agweddau byd-eang
Cyfathrebu, datblygu ymwybyddiaeth gadarnhaol o
hunaniaeth, a bod yn agored i syniadau newydd

Amcanion dysgu
Dysgu am fywyd bob dydd plant mewn gwledydd
ledled y byd Arabaidd

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 1

Map, tirnodau, dyfeisiadau a darganfyddiadau o'r byd Arabaidd



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 2

Geiriau benthyg a'u tarddiad

Mae'r geiriau hyn wedi tarddu o wahanol wledydd ac ieithoedd. Tynnwch linell i'r rhan o'r byd o le yr ydych yn credu y daethant yn wreiddiol.

Barbeciw

Candi

Doler

Fampir

Lama

Magasîn

Robot

Siampw

Swshi

Te

Tomato



Taflen weithgaredd 2

Taflen atebion i athrawon (O adnodd English Effect y British Council)

Barbeciw (Y Caribî) – Daeth barbeciw yn rhan o'r iaith Saesneg o'r Sbaeneg yn y 1600au. Pan gafodd y gair Saesneg ei ddefnyddio gyntaf roedd iddo ystyr ehangach sef 'rhesel a ddefnyddir i goginio bwyd dros dân agored' ac felly pryd neu gynulliad lle mae hyn yn digwydd.

Candi (Byd Arabaidd) – Daeth candi yn rhan o'r iaith Saesneg o'r Ffrangeg ddiwedd y Canol Oesoedd, ond daeth yn rhan o'r Ffrangeg o'r Arabeg. Yr ymadrodd sylfaenol yw siwgr candi, o'r Arabeg yn y bôn sukkar qandî 'candied sugar'.

Doler (Yr Almaen) – Mae'r gair doler wedi dod o Taler yn Almaeneg. Gwelir y gair yn Saesneg o ganol y 1500au wrth gyfeirio at wahanol geiniogau arian. Wrth iddo hefyd gael ei ddefnyddio mewn trefedigaethau Prydeinig yng Ngogledd America yn ystod y Rhyfel dros Annibyniaeth, cafodd y ddoler ei mabwysiadu fel arian cyfred yr UD yn 1785.

Fampir (Hwngari) – Mae gwreiddiau'r gair fampir yn Nwyrain Ewrop, rhanbarth y dywedir i Dracula, y fampir enwocaf ohonynt i gyd, ddod ohoni. Gwelir y gair yn yr iaith Saesneg ar ddechrau'r 1700au, a daw o'r Hwngareg vampir, drwy'r Ffrangeg vampire.

Lama (Yr Andes, De America) – Daw'r enw Lama, anifail pwn nodweddiadol yr Andes, o'r Getshwa, sef un o ieithoedd yr Andes, yn wreiddiol. Daeth Lama yn rhan o'r iaith Saesneg yn 1600 drwy'r Sbaeneg, gan adlewyrchu trefedigaethau Sbaenaidd yn Ne America.

Magasîn (byd Arabaidd) – mae'r ystyr gwreiddiol yn golygu bod gennych 'stordy' o erthyglau. Aeth y gair i mewn i'r Saesneg o'r Ffrangeg yn y 1500au, ond mae'n dod o'r Arabeg yn wreiddiol – mae mak_zin yn golygu 'stordy'.

Robot (Y Weriniaeth Tsiec) – Daw'r gair robot o'r iaith Tsieceg, ac ymddangosodd am y tro cyntaf yn 1920 mewn drama gan Karel Čapek sef Rossum's Universal Robots. Yn y ddrama hon, mae'n enw ar fath o weithiwr masgynyrchedig wedi'i wneud o ddeunydd wedi'i syntheseisio'n artiffisial. Daw o'r gair Tsieceg robota sy'n golygu 'llafur dan orfod, caledwaith'.

Siampw (India) – Daeth siampw yn rhan o'r iaith Saesneg yng nghanol y 1700au o ganlyniad i fwy o ymwneud Prydeinig yn Ne Asia. Mae fwy na thebyg yn dod o'r Hindi cām. po, sy'n golygu 'gwasgu'. Yr ystyr wreiddiol yn Saesneg oedd 'tylino'. Dros amser datblygodd yr ystyr i 'olchi neu sgrwbio (y pen neu'r gwallt)'.

Swshi (Japan) – Mae'r gair swshi i'w weld yn yr iaith Saesneg o ddiwedd yr 1890au o leiaf. Yn ystod y rhan fwyaf o'i 100 mlynedd gyntaf yn Saesneg, gwelir swshi wrth gyfeirio at Japan neu fwytai Japaneaidd y tu allan i Japan yn bennaf.

Te (Tsieina) – Gwelir te yn ymddangos yn yr iaith Saesneg o ganol y 1600au yn gyntaf, ychydig cyn i'r arfer o yfed te ddod yn ffasiynol ymhlith y bonedd. Gan darddu o'r Tsieinëeg, daeth te yn rhan o'r iaith Saesneg drwy'r Iseldireg fwy na thebyg, ac efallai y gwnaeth ddod yn rhan o'r Iseldireg drwy'r Faleieg, gan adlewyrchu'r llwybrau masnachu y daeth te i Brydain drwyddynt gyntaf.

Tomato (Mecsico) – Daeth tomato yn rhan o'r iaith Saesneg yn y 1600au, o'r Sbaeneg. Fodd bynnag, roedd Sbaeneg ei hun wedi benthyg y gair yn y 1530au, yn fuan ar ôl i Sbaen oresgyn ymerodraeth yr Astec. Daw'r gair o'r Nahwatl (iaith yr Astec), lle'r gair yw tomatl, ac efallai ei fod yn dod o tomaw 'tyfu'.

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 3

Yr wyddor Arabeg




Ar gyfer y siart hon, cofiwch fod yr wyddor yn cael ei darllen o'r dde i'r chwith! Mae'r 28 o lythrennau a geir yn yr wyddor Arabeg wedi cael eu nodi, gyda'r sŵn Cymraeg cyfatebol oddi tanynt. Ar gyfer rhai llythrennau, nid oes sŵn cyfatebol, ond gallwch roi cynnig ar wneud y sŵn a ddisgrifir yn y siart.

ر	ذ	د	خ	ح	ج	ث	ت	ب	أ
r fel r yn Gymraeg	th fel dd yn Gymraeg	d	fel ch yn Gymraeg	sŵn 'h' anadlog - fel chwerthyniad dwfn 'ha, ha	j	th fel yn cath	t	b	a
ف	غ	ع	ظ	ط	ض	ص	ش	س	ز
f	fel garglo yng nghefn y gwddf - tebyg i sŵn 'r' mewn geiriau Ffrangeg	sŵn 'a' dwfn yn y gwddwg	sŵn 'th' caled fel yn 'athro'	sŵn 't' caled fel yn 'taro'	sŵn 'd' caled	sŵn 'S' caled fel yn 'sŵn'	sh	s	z
ي	و	هـ	ن	م	ل	ك	ق		
y sŵn fel 'i' (i-dot) yn Gymraeg	w sŵn fel 'ŵ' yn Gymraeg	h	n	m	l	k	Sŵn 'c' caled yn ddwfn yn y gwddwg		




Taflen wybodaeth a gweithgareddau 4

Caligraffeg



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 5

Amlinellu siapiau anifeiliaid



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg

1) waaHid


Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg

2 ithnaan

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg



thalaatha

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg

4  arba'a

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg

5 khamisa

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg

٦ sitta


Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg

٧ sab'a

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg



thamaaniya

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg

٩ tis'a



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 6

Rhifau Arabeg - o un i ddeg

10) 'ashara


Taflen wybodaeth a gweithgareddau 7

Gridiau bingo



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 8

Hwyl gyda dyluniadau Arabeg



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 9

Creu eich patrymau ailadroddus eich hunan

Bydd angen y canlynol arnoch: Sgwariau o bapur, pensiliau, pinnau ysgrifennu lliw, papur dargopïo, drychau, cyfrifiadur neu iPad gyda meddalwedd neu ap paent, argraffydd.

1. Cymerwch ddarn o bapur sgwâr. Plygwch y darn o bapur yn wyth rhan.
2. Ar un rhan o wyth gofynnwch i'r plant ysgrifennu eu henwau mewn ysgrifen swigod.
3. Dargopiwch yr enw a'i adlewyrchu ar yr ochr gyferbyn.
4. Parhewch i adlewyrchu nes bod y sgwâr yn gyflawn.
5. Pan fydd yn gyflawn, lliwiwch y siapiau i mewn, gan sicrhau bod yr holl siapiau union debyg yr un lliw.
6. Pan fydd y sgwâr wedi cael ei liwio i gyd, gallwch ei sganio a defnyddiwch raglen paent i adlewyrchu a theselu'r ddelwedd.



1



2



3




4



5



6



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 10

Llythyrau gan blant sy'n byw mewn gwledydd ledled y byd Arabaidd



Helo 'na,
Rwy'n ferch 13 oed o Libanus ac yn fyfyrwraig yn Besancon Baabdath. Yn y llythyr yma, rwy'n mynd i siarad am fy ysgol.

Y brif iaith yn ein hysgol yw Ffrangeg, ond Arabeg yw ein mamiaith. Rydym hefyd yn astudio Arabeg, Saesneg, mathemateg, cemeg, ffiseg, daearyddiaeth, hanes, dinasyddiaeth a bioleg. Rydym hefyd yn gwneud rhai gweithgareddau fel celf, theatr a chwaraeon. Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 7.30 am. Mae saith gwers bob dydd. Ac mae egwyl o 20-munud bob dwy neu dair gwers. Rhaid i ni wisgo gwisg ysgol ac ni allwn gadw ein ffonau symudol gyda ni yn y dosbarth. Gallwn ddod â'n ffonau symudol gyda ni yn y bore ond mae'n rhaid i ni eu cadw yn swyddfa'r pennaeth. Cawn nhw yn ôl cyn gadael yr ysgol. Weithiau byddwn yn mynd ar wibdaith gyda'n hathrawon am y dydd a chawn offeren bob yn ail wythnos.

Nid ydym yn dathlu bob achlysur, ond pan fyddwn yn gwneud hynny, mae'n llawer o hwyl!

Mwynhewch eich diwrnod.

Rita Hanna.



Helo,
Joëlle ydw i, rwy yn fy arddegau, ac rwy'n falch iawn o ddod o Lebanon. Yma, yn fy ngwlad i, mae gennym fwydydd arbennig ar gyfer pob achlysur. Byddwn yn gwisgo dillad arbennig i ddathlu gwyliau traddodiadol drwy ddawnsio dawns draddodiadol 'dabke' ac mewn priodasau mawr. Mewn priodasau, fel ar bob achlysur, byddwn yn bwyta bwydydd Lebanaid fel 'tabboule' sef ein salad Lebanaid traddodiadol a llawer o brydau blasus eraill. Hefyd mae gennym bwdin 'knefe' hyfryd, ond mae llawer o bobl yn ei fwyta i frecwast.

Nos Galan, mae rhai rhieni'n hoffi gwyllo'r teledu er mwyn gweld beth sydd gan bobl dweud ffortiwn i'w ddweud am y Flwyddyn Newydd.

Adeg y Nadolig, byddwn yn mynd i'r eglwys, yn cael cinio mawr gyda'r holl deulu ac yn agor ein hanrhegion.

Gobeithio y byddwch yn hoffi fy ngwlad, Lebanon, a gobeithio y byddwch yn dod yma un diwrnod.

Joëlle Zarzir

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 10

Llythyrau gan blant sy'n byw mewn gwledydd ledled y byd Arabaidd



Rwy'n ysgrifennu i ddweud wrthyfch am un o'n gwyliau crefyddol yn Sawdi Arabia. Mae Eid al-Fitr hefyd yn cael ei galw yn yr Wyl Torri'r Ympryd. Mae Eid al Fitr yn ŵyl grefyddol bwysig a gaiff ei dathlu gan Foslemiaid ar draws y byd sy'n nodi diwedd Ramadan, mis ymprydio sanctaidd Islam. Gall dyddiad Eid fod yn wahanol o un wlad i'r llall.

Mae'n dibynnu pryd mae'r awdurdodau lleol yn cydnabod y lleuad newydd. Ond, yn y rhan fwyaf o wledydd, caiff ei dathlu ar yr un diwrnod a Sawdi Arabia yn gyffredinol. Caiff Eid al-Fitr lawer iawn o sylw yma. Bydd pobl Sawdi yn addurno eu cartrefi ac yn paratoi prydau moethus ar gyfer teulu a ffrindiau. Mae'n draddodiad cyffredin yn Sawdi i deuluoedd ymgynnull gartref ar gyfer gweddïau Eid. Cyn gweini'r pryd Eid arbennig, bydd plant bach yn aros mewn rhes o flaen pob oedolyn yn y teulu, sy'n rhoi arian yn rhodd i'r plant.

Hefyd, yn ysbryd Eid, mae llawer o bobl Sawdi yn mynd allan o'u ffordd i ddangos eu caredigrwydd a'u haelioni. Mae'n gyffredin i hyd yn oed bobl ddieithr gyfarch ei gilydd ar hap ac weithiau bydd teganau ac anrhegion yn cael eu rhoi i blant gan bobl gwbl ddieithr hyd yn oed. Hefyd, mewn rhai ardaloedd, mae'n draddodiad i ddynion Saudi fynd i brynu symiau mawr o reis a bwydydd eraill a'u gadael ar garreg drws y rheini sy'n llai ffodus. Yn ninasoedd mawr Sawdi Arabia, bob noson bydd sioeau tan gwyllt enfawr.

I gloi, mae gwyliau Eid yn Sawdi Arabia yn gallu amrywio'n ddiwylliannol yn dibynnu ar y rhanbarth, ond un peth sy'n gyffredin i'r holl ddathliadau yw haelioni a lletygarwch.

Amjad Qasem



Helo

Fy enw i yw Mohammad Khalid Soub ac rwy'n 15 oed. Mae gen i fywyd da iawn yng Ngwlad Iorddonen. Yn gyntaf rwy'n deffro am 4.30am i weddio a golchi fy nannedd cyn gwisgo, a byddaf yn barod i fynd i'r ysgol am 7.00am.

Rwy'n cyrraedd yr ysgol am 7.30am ac mae'n dechrau am 8.00am, pan fyddwn yn mynd i'r dosbarth i fwynhau a dysgu pethau newydd. Mae'r ysgol yn gorffen am 2.00pm. Mae'r holl ddisgyblion yn mynd adref. Ar ôl astudio, byddaf yn mynd allan i chwarae gyda fy mrodyr a'm ffrindiau.

Rwy'n hoffi chwarae pêl-droed. Ar ôl chwarae byddaf yn cael pryd o fwyd gyda fy nheulu am 6.30pm. Ar ôl gorffen byddwn yn golchi ein dannedd a'n dwylo a bydd y teulu cyfan yn eistedd yn yr ystafell fyw i siarad am y diwrnod a beth sy'n digwydd yfory. Rwy'n hoff iawn o wneud hynny.

Weithiau byddwn yn ymweld â pherthnasau. Am 8.30pm bydd mam a dad yn gwyllo'r newyddion. Bydd fy mrawd a minnau yn chwarae ar y cyfrifiadur neu'r Xbox neu ar ein ffonau. Am 9.00pm, bydd fy mrawd a minnau yn gwyllo WWE a ffilmiau llawn mynd ar y teledu cyn mynd i gysgu. Dyna beth rwy'n ei wneud fel arfer. Dyma fy mywyd ac rwy'n dwlu arno.

Un diwrnod, roedd yna briodas. Yn gyntaf fe es i at y barbwyr. Gwisgais fy ngwisg werin orau. Gwelais fy nheulu, ewythrod a ffrindiau. Gwelais y priodfab a'r briodferch - roeddent yn edrych yn hyfryd. Fe wnaethom ni ganu caneuon traddodiadol a bwyta mansaf i ginio.

Gan: Mohammad Khalid Soub – Gwlad Iorddonen

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 10

Llythyrau gan blant sy'n byw mewn gwledydd ledled y byd Arabaidd



Riyadh yw fy nhref enedigol
Mae'n siŵr bod pawb yn caru eu gwlad a'r man lle cawsant eu geni a'u magu. I mi, Riyadh yw hynny. Riyadh yw prifddinas Saudi Arabia. Rwy'n byw mewn ardal o'r enw Laban. Rwy'n byw gyda fy nheulu mewn fila fawr. Rwy'n hoff iawn o'r ddinas. Riyadh yw'r ddinas fwyaf yn Sawdi Arabia. Ystyrir mai hi yw un o'r dinasoedd mwyaf o ran maint a mwyaf newydd yn y Dwyrain Canol. Mae'n ddinas lân a modern. Mae ganddi lawer o goed a pharciau. Mae ganddi lawer o lefydd hanesyddol a chofebau. Mae ardal hanesyddol Diriyah yn rhanbarth Gogledd-Orllewin Riyadh. Mae Caer Musmak yng nghanol Riyadh. Mae'n cynnwys llawer o adeiladau modern ac enwog, fel Canolfan Al Mamlakah a Thŵr Al Faisaliah. Mae Amgueddfa'r Brenin Abdul Aziz yng nghanol y parc yng nghanol Riyadh. Mae'n cynnwys llawer o gofebau o'r brenin, ei feibion, y deyrnas, Makah, Madinah a'r Hanes Islamaidd. Rwy'n falch o fod yn Ddinesydd Sawdi sy'n byw yn y ddinas hon.

Gan Fahad Hamad Mohamed Al Benhaar



Helo,
Beth yw dy enw di? Maroun Chebly ydw i. Rwy'n byw yn Bickfaya, tref ym Mynydd Libanus. Mae'n tref ni yn ffantastig. Mae gennym glybiau chwaraeon, bwytai, siopau a llawer mwy. Hefyd, yn Bickfaya, rydym fel arfer yn trefnu gwyliau, lle mae llawer o bobl yn dod i arddangos eu creadigaethau newydd.

Rydym fel arfer yn gwneud tair gŵyl y flwyddyn: Gŵyl y Nadolig, Gŵyl Galan a'r Ŵyl Flodau.

Weithiau byddwn yn creu gŵyl bêl-droed. Wel, nid gŵyl yw hi mewn gwirionedd: Cwpan y Byd neu Gynghrair y Pencampwyr. Gan ein bod yn ddilynwyr pêl-droed mawr, maent yn gwneud yr ŵyl hon i wyllo'r gemau olaf yn yr awyr agored. Fel arfer, maent yn gosod sgrin o dan bedair coeden cedrwydden fawr, neu weithiau yng ngardd gyhoeddus y dref.

Dyma fy ngwlad, a dyma fy nhref; mae'n dref wych.

Rwy'n mwynhau'r gwyliau yn fawr bob blwyddyn.

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 10

Llythyrau gan blant sy'n byw mewn gwledydd ledled y byd Arabaidd



Sawdi Arabia yw'r 13eg gwlad fwyaf yn y byd, a'r ail fwyaf yn y byd Arabaidd (ar ôl Algeria) - mae'n 830,000 milltir sgwâr. Mae chwe gwaith maint yr Almaen - ond anialwch yw'r cyfan bron. Cronfeydd olew Sawdi Arabia yw'r ail fwyaf yn y byd. Amcangyfrifir eu bod yn 268 biliwn o farelau a thua un rhan o bump o gronfa olew'r byd. Bugeiliaid defaid a geifr yw cyndeidiau pobl Sawdi Arabia ac maent yn dal i ddilyn llawer o'r traddodiadau o'u gorffennol. Caiff bwydydd traddodiadol fel datys, fatir (bara fflat), arikah (bara o ran dde-orllewinol y wlad), a chyfuniad o sbeisys eu bwyta yn Saudi heddiw, er bod y rhan fwyaf o bobl wedi ymgartrefu mewn trefi a dinasoedd, ac nid ydynt yn byw bywyd nomadig erbyn hyn. Un o brif agweddau coginio yn y Dwyrain Canol yw'r gallu i gyfnwio cynhwysion ar gyfer yr hyn sydd ar gael neu at chwaeth bersonol. Gellir defnyddio cig oen yn lle cig eidion, ac ati. Gellir ychwanegu sbeisys fel cayenne a cwmin i wneud pryd mwy sbeislyd.

Myfyriwr - Mamdouh Mohammed Al Gibran

Taflen wybodaeth a gweithgareddau 11

Ryseitiau Arabaidd

Hummus b'TaHeenee (Hummus gyda Tahini)

Mae'r bwyd brecwast Arabaidd traddodiadol hwn yn enwog yn y Gorllewin heddiw. Yn y byd Arabaidd, caiff ei weini'n ffres yn aml gyda ffacbys poeth mewn powlenni unigol gyda basged o fara Arabaidd cynnes a phiclau ar yr ochr efallai.

Cynhwysion

- 2 dun o ffacbys wedi'u coginio (neu 900g /2 bwys o ffa wedi'u coginio ymlaen llaw)
- 75g/3 owns o bast sesame Tahini
- sudd lemwn cyfan (neu 75–120ml/3–4fl owns o sudd lemwn)
- 2 lwy de o halen
- 60ml/2 owns hylif o olew olewydd
- opsiynol: 1 neu 2 glof o arllwg, wedi'u torri'n fân iawn

Cyfarwyddiadau

Gan ddefnyddio prosesydd bwyd neu gymysgydd, cymysgwch y ffacbys (gan adael ambell un yn gyfan ar gyfer yr addurn ar y diwedd). Ychwanegwch y tahini, sudd lemwn, garllwg (os yn ei ddefnyddio), olew, a halen, a chymysgu popeth nes ei fod yn hufennog. Ychwanegwch fwy neu lai o sesnin fel y mynnwch. Rhowch y cymysgedd mewn powlen addas a'i addurno ag olew olewydd ychwanegol, y ffacbys cyfan a gadwyd a rhywfaint o bersli wedi'i dorri os yn dymuno gwneud hynny. Am frecwast traddodiadol, gweinwch gyda bara Arabaidd cynnes!



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 11

Ryseitiau Arabaidd

khubz 'arabee (Bara Arabaidd)

Er mai'r enw Groeg 'Pitta' a ddefnyddir yn aml, mae'r torthau bach crwn yma yn cael eu galw'n 'fara Arabaidd' yn y byd Arabaidd. Mae ganddynt chwydd nodedig sy'n eu gwneud yn hawdd eu llenwi, ac yn hwyl i'w pobi!

Cynhwysion

- 2 lwy de o furum sych gweithredol
- 1/2 llwy de o siwgr, neu halen
- 250ml/8 owns hylif o ddŵr lled-gynnes
- 30g/1 owns o flawd gwenith cyflawn (1/4 cwpanaid)
- 310g/11 owns o flawd plaen
- 1 llwy de o halen
- 2 lwy de o olew olewydd

Cyfarwyddiadau

Cymysgwch y burum, siwgr, a dŵr mewn powlen gymysgu fawr, gan droi'r cyfan yn dda. Ychwanegwch y blawd gwenith cyflawn a 30g/1 owns o flawd plaen a chwisgo'r cyfan. Rhowch y bowlen, heb ei gorchuddio, mewn man cynnes (nid poeth) nes i'r cymysgedd fynd yn ewynnog a swigog (tua 15 munud). Ychwanegwch halen, olew olewydd, a'r holl flawd sydd ar ôl, a'i gymysgu nes creu toes meddal.

Dylai'r toes fod yn feddal ac ychydig yn wlyb. Gorchuddiwch y bowlen a'i gadael mewn man cynnes (nid poeth) am awr. Cynheswch y ffwrn i 245oC/marc nwy 9, a rhowch badell haearn bwrw fawr, neu deilsen bobi ar y silff waelod. Gwnewch y toes yn fflat a'i rannu'n wyth darn o'r un maint. Rhowch y peli toes ar wyneb gwaith glân sydd â blawd arno, gorchuddiwch nhw â thywel damp, a'u gadael am 10 munud. Rholiwch y bêl gyntaf i ryw hanner modfedd o drwch, a'i roi yn y ffwrn yn gyflym ar ddalen pobi boeth. Ar ôl dwy funud yn y ffwrn dylai'r toes fod wedi chwyddo'n dda. Codwch ef i fyny'n ofalus gyda gefeiliau a'i droi drosodd, yna pobwch am funud arall. Rholiwch a choginiwch bob pelen yn unigol, neu rhowch fwy nag un yn y ffwrn gyda'i gilydd os oes digon o le. Rhowch bob torth fechan mewn basged wedi'i leinio a'i gorchuddio â napcyn fel ei bod yn aros yn gynnes. Gweinwch ar ei phen ei hun, neu gyda hummus ffres!

(Addaswyd o rysait yn y New York Times gan David Tanis:

<http://cooking.nytimes.com/recipes/1016071-homemade-pita-bread>)



Taflen wybodaeth a gweithgareddau 11

Ryseitiau Arabaidd

Polo (lemonêd mintys)

Mae bariau sudd – sy'n cynnig cyfuniadau o sudd ffrwyth ffres fel afal a moronen, a smwddis wedi'u gwneud gyda chynhwysion cyfoethog fel hufen tolch – yn gyffredin ar draws y byd Arabaidd, gyda phlant ac oedolion fel ei gilydd yn ciwio rownd y bloc gyda'r dydd a'r nos yn y manau mwyaf poblogaidd. Mae'r ddiod adfywiol hon yn gyffredin ar fwydlenni mewn caffis glan môr chic yn Beirut, Libanus, ac mae hefyd i'w gweld mewn rhannau eraill o ranbarth Dwyrain ardal Môr y Canoldir. Mae'n hyfryd ar ddiwrnod crasboeth!

Cynhwysion

- Dail mintys ffres
- Sudd 6 lemwn
- 2 gwpanaid o giwbiau ia (mwy neu lai, i flasau)
- Siwgr i flasau

Cyfarwyddiadau

Rhowch yr iâ mewn cymysgydd a'i falu'n fân. Ychwanegwch y sudd lemwn, dail mintys cyfan, a siwgr (ar gyfer diod felys, ychwanegwch o leiaf 11g/3.5 owns o siwgr). Cymysgwch eto nes bod popeth wedi cymysgu'n dda. Nawr dylai'r ddiod fod yn wyrdd llachar gyda darnau bach o ddail mintys. Arllwyswch i mewn i wydrau, gan roi ychydig mwy o fintys yn addurn, a mwynhewch!



Rhagor O wybodaeth

Rydyn ni'n gobeithio fod eich dysgwyr wedi mwynhau dysgu ychydig o Arabeg syml a darganfod mwy am y byd Arabaidd. Os hoffech ragor o wybodaeth, mae'r dolenni isod yn cyfeirio at amrywiaeth o adnoddau:

Adnoddau i'ch helpu i gyflwyno'r iaith Arabeg a'r diwylliant Arabaidd:
<https://www.qfi.org/united-kingdom/>

Dolen i ffilm fer – Mae 1001 Inventions and The Library of Secrets yn adrodd hanes rhai o ddyfeisiadau Oes Euraidd Islam: Inventions and The Library of Secrets.
<https://www.youtube.com/watch?v=JZDe9DCx7Wk>

Mae adroddiad y British Council, leithoedd y Dyfodol (Languages of the Future), yn nodi'r ieithoedd a fydd yn fwyaf hanfodol i'r D.U. dros yr 20 mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:
<https://www.britishcouncil.org/sites/default/files/languages-for-the-future.pdf>

Adnoddau defnyddiol i'r rheini sy'n dechrau dysgu Arabeg, a/neu'r rheini sydd am ddysgu mwy am yr iaith: <https://learning.aljazeera.net/en/generallanguage/level/beginner>

Ceir llawer o enghreifftiau prydferth o batrymau celf Islamaidd yma:
<http://patterninislamicart.com>

Amgueddfa Celf Islamaidd (MIA) – www.mia.org.qa/en

Oriel y Dwyrain Canol Islamaidd – <https://www.vam.ac.uk/collections/islamic-middle-east>

Rhestr yn nhrefn y wyddor o gyfraniadau Arabaidd i wareiddiad y byd:
www.salon.com/2002/01/08/alphabet

Os hoffech weld mwy o ryseitiai neu ddysgu mwy am fwyd yn y byd Arabaidd (yn enwedig ardal Dwyrain Môr y Canoldir):

Al Mashriq – Ryseitiai Amrywiol - aub.edu.lb
Ryseitiai Arabaidd - [Fideo Bing](#)

Fideo – cyflwyniad i galigraffeg Arabaidd a'r wyddor Arabeg:
<http://calligraphyqalam.com/index.html>

Gallwch archwilio a dylunio patrymau geometrig mwy cymleth gydag app 'Mosaic Tilemaker' QFI. Mae hwn yn cyflwyno cysyniadau sylfaenol celf a phensaerniaeth Islam i ddysgwyr drwy archwilio a chreu celf teils mosaig. Ar ar ôl dysgu am egwyddorion teselu a geometreg a hanes teils mosaig mewn celf Islamaidd, gall y dysgwyr ddylunio eu teils mosaig eu hunain.
<https://resources.qfi.org/resources/tilemaker-mosaic-tile-generator-online-mobile-application>

Gall eich dysgwyr ddarganfod mwy am ddylunio eu patrymau geometrig cymleth eu hunain wrth ddefnyddio adnoddau'r gwefannau canlynol:
<https://www.unravellingpattern.com/>

<https://www.theguardian.com/science/alexs-adventures-in-numberland/2015/feb/10/muslim-rule-and-compass-the-magic-of->

[islamic-geometric-design](#)

<http://elseed-art.com>

<https://www.youtube.com/watch?v=qpFz5Ryg6eU>

<https://www.youtube.com/watch?v=K7e4QBxtCl8>

Mae rhagor o erthyglau am Galigraffi yma: <https://news.harvard.edu/gazette/story/2012/04/where-art-blends-with-activism/>

Enghreifftiau o gelf galigraffig gan yr artist Everitte:
<http://www.everitte.org/>

<https://egotistsclub.wordpress.com/tag/calligraphy>

Esiamplau o gerddoriaeth Arabaidd:

https://www.bbc.co.uk/programmes/topics/Arabic_music

Gallwch wyllo cerddorion ac artistiaid Arabaidd cyfoes yn trafod eu gwaith yn y recordiad yma o weminar a gynhaliwyd fel rhan o London Language Show 2020: <https://www.youtube.com/watch?v=s1l8aSRSS5k&feature=youtu.be>

Diolch yn arbennig i'r canlynol am eu help gyda darparu'r esiamplau ar gyfer y pecyn yma:

- Athrawon a disgyblion yn Ysgol Gynradd Horton Park
- Disgyblion ysgol yn Libanus, Gwlad yr Iorddonen a Sawdi Arabia
- Audrey Shabbas ac AWAIR a roddodd ganiatâd i ni ddefnyddio'r templed geometrig a'r straeon gwerin o The Fables of Luqman o'r gyfrol, The Arabs: Activities for the Elementary and Middle School Level
- Everitte Barbee a roddodd ganiatâd i ni ddefnyddio delweddau o'i weithiau caligraffeg
- Diolch i Steward Cook a disgyblion Ysgol Gynradd Yr Eglwys yn Lloegr Frances Olive Anderson am eu help gyda'r wers patrymau ailadroddus

Am ragor o wybodaeth am ein Rhaglen Iaith Arabeg a Diwylliant Arabaidd cysylltwch â TeachingArabic@britishcouncil.org

[Rhaglen Y British Council - Yr Iaith Arabeg a'r Diwylliant Arabaidd](#)

Y Deyrnas Unedig | Qatar Foundation International (qfi.org)

